Amgueddfa'r Môr PORTHMADOG Maritime Museum

News Letter - Cylchlythyr

HAF 2019 SUMMER

Mae Amgueddfa'r Môr Porthmadog yn falch o gyhoeddi ein bod wedi ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol (QAVS) yn ddiweddar. Dyma'r wobr uchaf i wirfoddolwyr yn y wlad ac mae'n gyfwerth â grŵp MBE.



Mae'r dyfyniad yn y London Gazette yn darllen "Mae Amgueddfa Forwrol Porthmadog yn cael ei rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr sy'n cadw ac yn arddangos hanes adeiladu llongau a threftadaeth forwrol yr ardal". Mynychodd cynrychiolwyr o'r amgueddfa barti gardd ym Mhalas Buckingham ym mis Mai, ynghyd â derbynwyr eraill y Wobr eleni.

Mae'r tymor yn mynd ymlaen ac fel arfer mae'r tywydd yn newidiol. Mae'r effaith a gaiff hyn ar bresenoldeb yn achosi trafodaeth gyson. Ar ddiwrnodau poeth iawn mae ymwelwyr yn tueddu i fwynhau'r traethau er bod rhai yn dod i mewn i guddio rhag y gwres. Ar ddiwrnodau glawog bydd mwy yn dod i mewn. Ar ddiwrnodau cymylog gyda chawodydd gwelwn y rhan fwyaf o ymwelwyr.

The Porthmadog Maritime Museum is proud to announce that we have recently been awarded the prestigious Queen's Award for Voluntary Service (QAVS). This is the highest award for volunteers in the country and is equivalent to a group MBE.
The citation in the London Gazette reads "Porthmadog Maritime Museum is run entirely by volunteers who preserve and display the ship building and seafaring heritage of the area". Representatives from the museum attended a garden party at Buckingham Palace in May, along with other recipients of this year's Award.



Chairman John Jones-Morris and volunteers Dewi and Mary - Cadeirydd John Jones-Morris a gwirfoddolwyr Dewi a Mary

The season is well underway and as usual the weather is changeable. The effect this has on attendance is a constant source of discussion. On very hot days visitors tend to head for the beaches though there are some who come in to hide from the heat. On rainy days more come in. Overcast days with showers see most visitors.

Arwyr Lleol

Medal Dewrder arian a ddyfarnwyd gan lywodraeth Norwy i William Williams o Borth y Gest. Ar 1 Mawrth 1887 tra yn bosun ar y S.S.Prydain, yn berchen i Nefyn, roedd William un o'r criw ar y bad achub a achubodd criw'r barc "Traveller". Meistr y S.S.Prydain, a gafodd fedal hefyd, oedd Capten Moses Parry o Cricieth.

Local Heroes

Silver Gallantry medal awarded by the Norwegian government to William Williams of Borth y Gest. On 1st March 1887 whilst bosun of the Nefyn owned S.S.Prydain he manned the lifeboat which recued the crew of the Norwegian barque "Traveller". Master of S.S.Prydain, who also received a medal, was Captain Moses Parry of Criccieth.




Ar Orffennaf 24ain 1845, achubwyd criw o 15 o'r llong Americanaidd "Glendower" gan gwch o Borthmadog. Am y gwasanaeth hwn, dyfarnodd y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol dros Fywyd ar y Môr (yr RNLI wedi hynny) fedalau arian i William E.Morris, Harbwr Feistr, Capteiniaid R.Parry, William Griffith, ac Evan Jones, yr wyth arall o'r criw yn cael eu gwobrwyo mewn arian parod. Mae'n debyg mai cwch pwrpas deuol oedd hwn, a ddefnyddiwyd gan y peilotiaid a, chyn dyfodiad y tynfadau stêm, i dynnu llongau i mewn ac allan o'r harbwr. Cyrhaeddodd y bad achub cyntaf yn 1852 a leolwyd yng Nghricieth lle gellid ei lansio ar unrhyw adeg o'r llanw ac i osgoi croesi'r bar peryglus. Enwyd yr orsaf yn "Portmadoc" ac ni chafodd ei hail-enwi fel "Criccieth" tan 1892.

On July 24th 1845, the crew of 15 of the American ship "Glendower" were rescued by a boat from Porthmadog. For this service the Royal National Institute for Protection of Life at Sea (afterwards the RNLI) awarded silver medals to William E.Morris, Harbour Master, Capts R.Parry, William Griffith, and Evan Jones, the eight others of the crew being awarded in cash. This was probably a dual purpose boat, used by the pilots and, before the arrival of the steam tugs, for towing ships in and out of the harbour. The first lifeboat arrived in 1852 and was stationed at Criccieth where it could be launched at any stage of the tide and to avoid crossing the dangerous bar. The station was named "Portmadoc" and not renamed as "Criccieth" until 1892.




"Diwrnod D" Mehefin 6ed 1944

Cymerodd y "Florence Cooke", eiddo i Cookes Explosives o Benrhyndeudraeth, ran yn y Glaniadau "D Day" yn cyflenwi llongau rhyfel â thanbelenni. Cafodd ei chomisiynu ym 1939 i'w defnyddio fel llong i gario ffrwydron rhyfel yn Aberdaugleddau i ddechrau, ac wedyn yn Scappa Flow yn yr Ynysoedd Erch. Cafodd ei rhyddhau o'r llynges ym 1945 a ddychwelodd i Borthmadog.



"D Day" June 6th 1944

The "Florence Cooke" owned by Cookes Explosives of Penrhyndeudraeth took part in the D Day Landings supplying warships with shells. She was requisitioned by the Admiralty in 1939 and used as an ammunition ship, first at Milford Haven and later at Scappa Flow in the Orkney Isles. She was released from the navy in 1945 and returned to Porthmadog



Special mention should be made of the gallant men who sailed on the little ship and endured the dangers of enemy attack during more than five years.—

Captain Thomas Davies, Captain W. J. Lewis, D. G. Williams, Chief Engineer; Richard W. Owen, Chief Officer; Evan Lewis, Second Engineer; Roland Owen, Alf Antonsen, Evan Roberts, Tom James, J. Ferrier, E. R. Roberts, William Owen, Llew Jones, G. Lloyd-Jones, E. O. Roberts, Evan P. Thomas, Jenkin Williams, Owen Davies, Owen Jones, O. H. Owen H. J. Griffiths, J. A. Robertson, J. C. Grant and R. J. Wittall,

Local School and Children's groups can visit the museum free of charge!
We have some play activities and hands-on educational exhibits.

Gall Ysgolion a grwpiau plant lleol ymweld â'r amgueddfa yn rhad ac am ddim! Mae gennym rai gweithgareddau chwarae a arddangosion ymarferol addysgol.

Cysylltwch a'r ysgrifennydd i drefnu ymweliad
Contact the secretary to arrange a visit

Robert Dafydd Cadwalader
https://portmm.org/
contact@portmm.org

Visit us on Facebook
https://www.facebook.com/AmgueddfaPort/

Y Sgwner Tri Fast "M·A·James"

Adeiladwyd ym Mhorthmadog gan David Williams yn 1900. Hyd 89.6', Lled 22.6'Tunelli 124

Hwyliodd yn y fasnach llechi a phenfras hallt o Newfoundland. F'ei gwerthwyd i Gaerdydd yn 1918 ac wedyn i Plymouth. Hwyliodd allan o Appledore am ugain mlynedd yna, yn ystod yr Ail Ryfel, cafodd ei chymryd drosodd gan y Morlys iw ddefnyddio fel llwyfan i glymu balwnau amddiffynnol a dyna le bu hi'n pydru ers hynny ar lannau'r Afon Torridge yn Nyfnaint.



Model yn yr Amgueddfa – Model at the Museum




2007 *Photo Chris Preece*

Three Masted Schooner "M·A·James"

One of the well known "Western Ocean Yachts"
Built at Porthmadog by David Williams in 1900. Length 89.6' Beam 22.6', Tons gross 124

Sailed in the slate and Newfoundland salt cod trade. Sold to Cardiff in 1917 then to Plymouth. Sailed out of Appledore for twenty years then was requisitioned by the Admiralty during WW2. She was used as a floating barrage ballon securing hulk and neglected. After the war she was left to rot on the banks of the River Torridge in Devon where some of her remains lie.



1948 *Photo Margaret Pollock*



1970s *Photo Chris Preece*



2019 Derbyniodd Carwyn Jones y llun hwn gan ffrind a ymwelodd â'r safle yn ddiweddar
2019 Carwyn Jones received this photo from a friend who recently visited the site



The “Pride of Wales” was a large barque built at Borth y Gest in 1870
Barc mawr oedd y " Pride of Wales " a adeiladwyd ym Mhorth y Gest ym 1870

Amgueddfa'r Môr
PORTHMADOG
Maritime Museum



Rydym ar agor Pasg i'r Hanner Tymor Hydref -
Ar gau yn ystod y Gaeaf

Pob Dydd 12 - 4 Every Day

We are open from Easter to Autumn Half Term -
Closed during the Winter